# Cofnodion 2ail gyfarfod Grŵp Dŵr Croyw CGBC

*a gynhaliwyd yn swyddfa Dyfrffyrdd Prydain, Tŷ Loc Burgedin, Trefaldwyn, am 11.00am, 19 Mai 2009*

**Yn bresennol:**

Janet Buckles (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC)
Gareth Davies (GD) Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru (AMG)
Rebecca Good (RG) Pond Conservation
Tristan Hatton-Ellis (THE) Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)
Helen Keeble (HK) Pond Conservation
Huw Jones (HJ) AAC
Julian Jones (JJ) Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed (YMF)
Rhydwen Mitchell (RM) Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC)
Stuart Moodie (SM) Dyfrffyrdd Prydain (BW)
Dai Roberts (DR) Riverfly Partnership Wales (RPW)/SE Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru (SEWRT)
Kate Williamson (KW) Parc Cenedlaethol Eryri (PCE)

**Ymddiheuriadau:** Emma Durward, Robin Woodyatt

2. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod cyntaf Grŵp Dŵr Croyw CGBC, a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2008, fel cofnod cywir.

3. Diweddariadau'r Partneriaid

Ariannu:

- Bydd CCGC yn darparu £10,000 y flwyddyn am dair blynedd i gynnal gwaith y grŵp (THE).
- Mae'n bosibl y bydd AAC mewn sefyllfa i ddarparu arian ar gyfer prosiectau ymchwiliol yn unig. Mae'n bosibl y bydd AAC hefyd yn gallu darparu hyfforddiant ar dechnegau adnabod i wirfoddolwyr. Cam gweithredu: HJ i ddilyn i fyny ar hyn.
- Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi darparu arian i godi rhannau o gamlas Maldwyn i gyflwr ffafriol. Caiff £50,000 ei wario ar gangen Cegidfa.
- Mae £18,000 wedi cael ei roi i'r Riverfly Partnership dros dair blynedd gan Natural England (NE). Mae'n bosibl y gellir cael caniatâd NE i wario rhywfaint o'r arian hwn yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd RPW yn gallu darparu adnoddau ar ffurf amser staff/gwirfoddolwyr. Cam gweithredu: DR i ddilyn i fyny ar hyn.
- Ni fydd unrhyw arian ar gael o ehangu cynllun Tir Eryri ond efallai y bydd arian ar gael ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â dŵr trwy gais cydgyfeirio gyda chynghorau Conwy a Gwynedd (KW).
- Mae arian ac amser ar gael gan Gadwch Gymru'n Daclus ar gyfer gwaith bioamrywiaeth. Gallai Swyddogion Bioamrywiaeth Cynghorau Sir a Chofnodwyr Sirol hefyd fod yn adnodd gwerthfawr (KW).

**Isadran Gwasanaethau Technegol Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC)**
Cyflwynodd GD diweddariad ar gynnydd y cynlluniau amaeth-amgylcheddol newydd arfaethedig.

- Ar adeg y cyfarfod roedd Gweinidogion ar fin gwneud cyhoeddiad ynghylch cynllun lefel mynediad Glastir. Bydd yn dechrau mis Ionawr 2011.
- Mae'r cynllun lefel uwch yn dal i gael ei ystyried ond disgwylir iddo ddechrau yn 2012/2013.
- Crynodeb o gynnydd y cynllun a chopi o gyhoeddiad Gweinidogion i gael eu cylchredeg i'r grŵp. Cam gweithredu GD.
- Meini prawf drafft ar gyfer safbwynt y CGB i gael eu cylchredeg ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf. Cam gweithredu TE.
- Mae'r treial Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon wedi dod i ben ac ni chaiff ei ehangu'n gynllun peilot. Bydd y cymorth yn cael ei gyfyngu i ffermydd mewn Parthau sy'n Agored i Niwed gan Nitrogen (NVZ). Caiff materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr eu hystyried o dan y cynllun Glastir lefel uwch.

**Pysgodfeydd LlCC**

- Bydd yn bwydo i mewn i Echel 2.
- Bydd yn ystyried ehangu'r rhestr rhywogaethau ar gyfer rheoliadau ymfudiad pysgod.

**Dyfrffyrdd Prydain**

- Ymgynghorydd i ymchwilio i effaith sgrinio ar lyswennod pendwll y nant ym mewnlif afon Dyfrdwy yn Llangollen.
- Astudiaethau geomorffolegol a hydrolegol ar afon Wysg wedi'u gohirio dros dro oherwydd lefelau dŵr uchel.
- Gwaith monitro planhigion a chyflwr camlas Maldwyn i barhau. Cangen Cegidfa i gael ei hail-garthu a'i hadfer.
- Newidiadau gweinyddol i gael eu rhoi ar waith. Caiff Gogledd Cymru ei reoli o Gaer a De Cymru o Gaerloyw.

**Ymddiriedolaethau Natur**

- Menter Hafren a Gwy, Tirweddau Byw – yr agenda i gael ei chylchredeg i'r grŵp. Cam gweithredu JJ
- Awgrymu codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Chyswllt Amgylchedd Cymru.
- Manylion prosiect Pyllau Dŵr ar afon Gwy i gael eu cylchredeg. Cam gweithredu JJ
- Prosiect Grug, Pelenllys a Phyllau: 12 pwll wedi cael eu creu yn nwyrain sir Faesyfed.
- Swyddog Prosiect Llygod Pengrwn y Dŵr wedi creu 6 pwll dŵr newydd yng Nghwm Marteg.
- Mynychodd JJ gynhadledd Llyswennod y Deyrnas Unedig.
- Arolwg dyfrgwn: gwirfoddolwyr yr ymddiriedolaethau natur i gael eu hyfforddi.

**Riverfly Partnership Wales/ Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru**

- Darparwyd cyrsiau adnabod i wirfoddolwyr
- Cymerwyd rhan mewn erlyniad llwyddiannus yn Rhymni
- Y Bartneriaeth i gynhyrchu siartiau ar gardiau post a thaflenni ffeithiau ar gyfer 8 rhywogaeth.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

- Cam gweithredu a thargedau drafft ar gyfer mamaliaid yn cael eu cylchredeg i'w cyhoeddi ar ddiwedd mis Mehefin, ynghyd â phlanhigion fasgwlaidd, lepidoptera ac adar. Mae'r targedau ar gyfer maint poblogaethau a dosbarthiadau rhywogaethau yn unig, mae angen cyngor gan grwpiau rhywogaethau ar gyfer y gwaith cyflenwi.
- Mae CGB Eryri'n cael ei adolygu.

**Pond Conservation**

Mae prosiect Miliwn o Byllau wedi gwneud cais am gyllid ar gyfer 15 pwll yng nghylch cyntaf Biffa Award, ac yn awr yn chwilio am safleoedd newydd ar gyfer y cylch nesaf. Mae'r materion o bwys yn cynnwys caniatâd cynllunio, archaeoleg a symud rwbel o orlifdir.

**Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

- Cafwyd wybod am gimwch afon America yn nant Golbourne gyda mynediad uniongyrchol i afon Dyfrdwy a goblygiadau i'r boblogaeth eogiaid.
- Mewnbwn Canlyniad 21 posibl i broblemau cyfoethogi yn Llyn Padarn a'r effaith ar boblogaeth y torgoch Arctig.
- Darganfuwyd glochidia misglen berlog yr afon ym mhob afon a fonitrwyd eleni, ond mae'r llwyth yn isel iawn. Mae arian ar gael ar gyfer astudiaeth effaith ar afon Eden yn haf 2009.
- Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn parhau, y cam gweithredu ar fin dechrau
- Adolygiad o ganiatadau'n dod i ben yn 2010.
- Cydweithio â Dŵr Cymru i leihau effeithiau gollwng dŵr oer ar boblogaethau gwangod a herlod yn Llyn Brianne.
- Llusgiant yn afon Dyfrdwy, mae eogiaid ifanc a llyswennod pendwll angen mesurau lliniaru.
- Canlyniad 21 gyda LlCC, pob SoDdGA a phob ACA i gyrraedd cyflwr ffafriol.
- Rob Strachan yw'r cydgysylltydd arweinio ar gyfer yr arolygon dyfrgwn.
- Mae AAC yn chwilio am bartneriaid ar gyfer prosiectau pyllau dŵr i gyrraedd y targed.

**CCGC**

- Mae'r prosiect dargludedd ar raddfa tirwedd angen adolygiad o'r llenyddiaeth ar gyfer dŵr croyw, er mwyn datblygu nifer o safleoedd a warchodir a gwella polisïau e.e. dosbarthiad madfallod dŵr cribog.
- Angen arolygon o gynefinoedd merddwr y CGB, ond heb gynnwys y safleoedd dynodedig.

- Cam gweithredu: THE i gylchredeg adroddiad drafft a rhestr drafft o safleoedd. Yr aelodau i anfon yn ôl cynigion gyda 5 safle ar y mwyaf o fewn pythefnos i'r cyfarfod.
- Arian ar gael i fonitro'r torgoch a'r gwyniad mewn partneriaeth ag AAC, gan gynnwys gwaith dilynol ar drawsleoli gwyniaid i Lyn Arennig Fawr.
- Cais Llynnoedd LIFE i ystyried cyngor ar becyn cymorth a mesurau ar gyfer safleoedd arddangos yng Nghymru. CCGC yn ymgynghori â thirfeddianwyr llynnoedd Ynys Môn a Bosherston. Posibilrwydd i Bosherston gael Biffa Award trwy'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**Targedau CGB Cymru a CGB Lleol**

- Targedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw wedi'u cylchredeg gan THE
- Diana Reynolds sy'n arwain ar gyfer LlCC.
- Angen penodi arweinwyr gweithredu ac asiantau cyflenwi yn seiliedig ar gamau gweithredu Cymru a chenedlaethol, gyda lle ar gyfer safbwyntiau grwpiau ecosystem eraill.
- A ddylai partneriaid arweiniol rhywogaethau bennu camau gweithredu rhywogaethau a chreu taenlen ar wahân?
- Gall grwpiau cynefin gynnig camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau, ond arbenigwyr y rhywogaethau i arwain.

Cam gweithredu: Y grŵp i gyfrannu camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau, drafftiau i'w dosbarthu i'r grŵp erbyn diwedd mis Mehefin

- KW a THE: Mamaliaid
- THE: Ymlusgiaid (trwy Liz Howe)
- THE Planhigion fasgwlaidd (trwy Trevor Dines)
- HJ a THE Pysgod
- KW Edrych ar gofnodion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i weld â phwy y dylid cysylltu.
- Mae'n bosibl y caiff grŵp arbenigwyr pysgod ar lefel genedlaethol ei ffurfio.

**Targedau cynefinoedd**

- Rhaid cytuno ar y cyd ar rai camau gweithredu. Mae angen mannau cychwyn ar gyfer sylwadau.

Camau gweithredu:

- HK a RG i lunio camau gweithredu ar gyfer pyllau dŵr
- HJ, THE, JJ a DR i ymdrin ag afonydd
- THE i ymdrin â llynnoedd
- JB i gydgysylltu'r ymateb a chynhyrchu crynodeb ar ffurf taenlen.
- Ymatebion at JB erbyn Mehefin 15
- HJ i ganfod sut y caiff camau gweithredu eu cydgysylltu yn Lloegr

**Pyllau Dŵr Blaenllaw i Gymru**

Rhestr oddi wrth HK ac ymateb drafft i'w cylchredeg gan THE ar ôl ymgynghori gyda CCGC

Camau gweithredu:

- Aelodau'r grŵp i enwebu safleoedd ychwanegol i lenwi'r bylchau daearyddol, 2 bwll ym mhob ardal CGBLl erbyn diwedd mis Gorffennaf.
- KW i gysylltu â swyddogion CGBLl
- THE i gasglu'r data a'i anfon at RG

**Gofynion Arolygu ar gyfer 2009**
Awgrymiadau:

- Pryfyn Mai *Potomanthus luteus*, mis Mai i fis Gorffennaf. Yr arolwg nesaf ar gyfer larfau mawr fyddai mis Tachwedd (DR)
- Angen gwaith arolygu cyffredinol ar *baetis niger* (DR).
- Mae'n bosibl bod arian ar gael ar gyfer ysgrifennu adroddiadau neu arolygon larfau yn yr hydref (THE)
- Haenen System Gwybodaeth Ddaearyddol bosibl ar gyfer pryfed afon, i gysylltu â gwaith cynnal a chadw a gwaith arall (HJ)
- Arolygon ar gyfer pysgod mewn cynefinoedd â gorchudd cerrig bloc a graean mewn afonydd diraddiedig (JJ)
- Maes awyr Llanbedr ar gyfer y fadfall ddŵr gribog (KW)
- Arolygu cyfran o byllau'r prosiect Miliwn o Byllau (RG)
- Safle bwrw plu gwyddau Canada, effeithiau ewtroffigedd ar Lyn Syfaddan
- Bridio pryfed Mai mewn caethiwed a'u stocio (DR)

Cam gweithredu: Aelodau'r grŵp i anfon cynigion ffurfiol at THE erbyn diwedd mis Awst

**Cynefinoedd â blaenoriaeth**
Cylchredwyd y ddogfen gan THE, adborth gan aelodau'r grŵp.

- Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer adolygiadau CGBLl (KW).
- Angen cywiro: lleoliad y torgoch Arctig - mae Llyn Padarn ym Mharc Cenedlaethol Eryri, nid Gwynedd (KW).
- Gellid cynnwys presenoldeb rhywogaethau yn ystod cyfnodau pwysig o'u cylch bywyd (KW).
- Gellid ei chylchredeg i swyddogion CGBLl er mwyn iddynt roi adborth (KW).

Cam gweithredu: THE i wirio perthnasedd cynefinoedd dŵr croyw i ystlumod, a'r ystlum du yn arbennig.

**Unrhyw fusnes arall**
Cylchredwyd holiadur a dogfen oddi wrth Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gan Tristan cyn y cyfarfod. Y dyddiad cau ar gyfer adborth yw Mai 27.
Trafododd aelodau'r grŵp eu hymatebion i'r holiadur yn ystod y cyfarfod.
Cam gweithredu: THE i gaboli'r ymatebion a'u hail-gylchredeg i gael rhagor o adborth

Cynhelir Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru yn Abertawe ar 16/17 Medi (KW).
Cynhelir Cynhadledd y Freshwater Biological Association ym Mangor ar 7/8 Gorffennaf (THE)

**Y cyfarfod nesaf**
I'w gynnal yn Aberystwyth (lleoliad i'w drefnu) ddydd Mercher 21 Hydref 2009.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm